Telerau ac Amodau Seddi Rhatach

1. Nid yw dyraniadau seddi rhatach yn warantedig

2. Bydd sedd ratach yn £150 y tymor, fesul disgybl, yn daladwy ymlaen llaw (ffi yn gywir o'r flwyddyn ysgol 2019/20).

3. Gellir tynnu seddi rhatach yn ôl gydag o leiaf pythefnos o rybudd.

4. Gall y cyfnod rhybudd gynnwys penwythnosau, gwyliau banc a chyhoeddus a gwyliau'r ysgol.

5. Gellir tynnu sedd ratach yn ôl os:

    a. Bydd angen y sedd honno i ddisgybl sydd â hawl i gludiant rhwng y cartref a'r ysgol am ddim.
    b. Bydd y gwasanaethau bws yn cael eu tynnu yn ôl os nad oes nifer digonol o blant sydd â hawl teithio.
    c. Diffyg cydymffurfio â Chod Ymddygiad Teithio Llywodraeth Cymru.

6. Os bydd sedd ratach yn cael ei thynnu yn ôl, disgwylir i rieni wneud eu trefniadau eu hunain i sicrhau bod eu plentyn yn teithio i'r ysgol a gartref. Ni fydd yr awdurdod yn gwneud unrhyw drefniadau pellach i gludo'r plentyn hwnnw.

7. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i symud disgyblion rhwng cerbydau neu ail-gyfeirio cerbydau er mwyn rheoli llwythi.

8. Bydd sedd ratach yn cael ei gwerthu yn tybio bod y plentyn yn teithio 5 diwrnod bob wythnos.

9. Lle bydd seddi rhatach yn cael eu gwerthu ar gyfer rhan o'r wythnos (ar sail disgresiwn yn unig) gall y sedd ratach gael ei thynnu'n ôl os derbynnir cais i blentyn arall deithio 5 diwrnod yr wythnos.

10. Bydd y seddi rhatach ond yn cael eu cynnig ar ôl i'r tymor ddechrau. Yn yr achos hwn bydd taliad tymor llawn (£150) yn parhau'n daladwy.